



EIN RHAGLEN DYSGU PROFFESIYNOL (DP) 2019 - 2020





CYNNWYS

Tud. 4	Ein cylch DP
Tud. 4	Rhaglen 2019-20
Tud. 5	Y cwricwlwm sy'n newid yng Nghymru
Tud. 5	Ein polisi iaith
Tud. 6	Ein cyrsiau DP
Tud. 6 Tud. 7 Tud. 8 Tud. 9 Tud. 10	Cyrsiau Paratoi i Addysgu a'r Camau Nesaf Cyrsiau Asesu > Ymarfer Ystafell Ddosbarth Cyrsiau Galwedigaethol, Lefel Mynediad a Sgiliau Hanfodol Cyrsiau Thematig Cyrsiau ar-lein
Tud. 11	Defnyddio ein system archebu ar-lein
Tud. 12	Cysylltu â ni
Tud. 12	Adnoddau ychwanegol


“Mae ein Rhaglen Datblygu Proffesiynol 2019-20 yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr adolygu asesiadau diweddar, ystyried goblygiadau ar gyfer addysgeg a rhannu strategaethau ac adnoddau addysgu a dysgu gwerthfawr. Dan ddarpariaeth ein cyflwynwyr hyfforddedig, sy'n meddu ar gyfoeth o brofiad yn yr ystafell ddosbarth a phrofiad asesu, mae ein digwyddiadau'n cefnogi dysgu proffesiynol gyda'r nod o sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr.”

Nia Jones, Rheolwr DP a Hyfforddiant



EIN CYLCH DP

Mae ein cylch digwyddiadau wedi'i gynllunio i ddarparu gefnogaeth barhaus i athrawon, tra'n mynd i'r afael â gofynion ein cymwysterau, i ymgorffori arferion effeithiol wrth eu cyflwyno a'u hasesu. Mae'r cylch hefyd yn cefnogi cynllunio ar gyfer addysgu a chyflwyno ymarferol yn yr ystafell ddosbarth a'i nod yw magu hyder ac ysbrydoli athrawon er mwyn sicrhau bod eu dysgwyr yn cael y canlyniadau gorau posibl.



RHAGLEN 2019-20

Bydd [y rhaglen ar gyfer 2019-2020](#) yn bennaf yn symud oddi wrth cefnogi cyflwyno cymwysterau diwygiedig i ddarparu adborth ar y gyfres arholiad/asesu a bydd yn ystyried goblygiadau ar gyfer addysgu, dysgu ac asesiadau yn y dyfodol. Bydd y digwyddiadau'n canolbwyntio ar adolygu adborth o gyfresi asesu diweddar, yn ystyried enghreifftiau gan ymgeiswyr ac yn canolbwyntio ar addysgeg, strategaethau ymarferol ystafell ddosbarth ac adnoddau i wella perfformiad.

Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau thematig eleni. Bydd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar arferion addysgu a dysgu effeithiol ac arloesol mewn ac ar draws meysydd pwnc a/neu gyfnodau allweddol.

Y CWRICWLWM SY’N NEWID YNG NGHYMRU

Bydd diwygiadau i’r cwricwlwm yng Nghymru yn effeithio’n sylweddol ar ddysgwyr, ymarferwyr a chanolfannau ar draws Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Yn ystod 2019-20, byddwn yn datblygu partneriaethau gwaith agos gyda chydweithwyr Consortia Rhanbarthol Cymru a Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gallwn ddatblygu modelau Dysgu Proffesiynol ar y cyd, yn unol â strategaeth ddiwygio Addysg Llywodraeth Cymru; bydd hyn yn cynnwys newid y teitl yr ydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd o DPP i “Dysgu Proffesiynol” o fis Medi 2019 ymlaen.

Bydd ein rhaglen o ddigwyddiadau yn cael ei chyflwyno yn y ffyrdd canlynol:

- wyneb yn wyneb (digwyddiadau undydd neu hanner diwrnod fel arfer mewn gwestai neu ganolfannau cynadledda)
- gweminarau byw, ar-lein (fel arfer rhwng 4 a 6yh)
- gweminarau ar-lein wedi’u recordio ymlaen llaw (ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan)

Mae ein holl gyrsiau yn cael eu harwain gan arbenigwyr pwnc sydd â phrofiad a gwybodaeth fanwl am y cynnwys. Byddant yn ymarferwyr ystafell ddosbarth, swyddogion pwnc, datblygwyr manylebau, arholwyr neu’n gymedrolwyr gyda phrofiad helaeth yn eu maes.

Drwy fynychu un o’n cyrsiau byddwch hefyd yn derbyn pecyn cynhwysfawr o ddeunyddiau cwrs y gallwch fynd gyda chi a rhannu. â’ch cydweithwyr.

GWELD Y CYRSIAU A CHADW EICH LLE

EIN POLISI IAITH

Mae polisi dwyieithog ar waith gennym ac rydym yn cynnig cyfleoedd i gynrychiolwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg. I gefnogi’r polisi hwn, gofynnir i chi a hoffech chi becyn cynrychiolydd cyfrwng Cymraeg neu Saesneg wrth gofrestru ar gyfer y cwrs. Lle bo hynny’n ymarferol, byddwn yn cynnig ystafell gyfarfod ychwanegol a/neu gyflwynwyr cyfrwng Cymraeg a/neu wasanaeth cyfieithu ar y pryd (Cymraeg>Saesneg) mewn digwyddiadau.

EIN CYRSIAU DP

PARATOI I ADDYSGU A'R CAMAU NESAF

Mae cyrsiau Paratoi i Addysgu wedi'u trefnu yn y cyfnod cyn addysgu cyntaf. Cynigir cyrsiau Camau Nesaf yn ystod Blwyddyn 1 yr addysgu.

Bydd y sesiynau undydd hyn yn edrych yn fanwl ar fanyleb newydd gan gynnwys ei hamcanion asesu, ei strwythur arholi a meysydd allweddol eraill, yn ogystal ag adolygu deunyddiau asesu enghreifftiol.

Deilliannau:

- Adolygu a meithrin dealltwriaeth o ofynion y fanyleb newydd o ran cynnwys ac asesu.
- Deall manteision y cymwysterau i chi a'ch dysgwyr.
- Cefnogi cynllunio ar gyfer addysgu, gan gynnwys gwybodaeth am adnoddau a chysylltiadau defnyddiol.
- Rhwydweithio â chydweithwyr ac arbenigwyr

Bydd y digwyddiadau hyn, a gynhelir mewn partneriaeth â City & Guilds yn bennaf yn cefnogi cyflwyno'r [gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gyfer Cymru](#). Bydd hefyd sawl digwyddiad rhwydweithio yn cael eu cynnal ledled y wlad i gefnogi elfennau Ymarfer y cymwysterau hyn. [Darganfyddwch fwy yma](#).

“Wedi'i gyflawni'n dda gan unigolion a oedd yn wybodus iawn. Cafodd ei gyflwyno'n dda ac mewn modd strwythuredig, lle'r oeddent yn annog gofyn cwestiynau ac yn eu hateb yn llawn.”

Hyfforddiant lechyd a Gofal Cymdeithasol,
Chwefror 2019

Cost:

Paratoi i Addysgu: Rhad ac am ddim

Y Camau Nesaf: £210

Lleoliadau: Ar-lein a / neu mewn lleoliadau ganolog

[GWELD CYRSIAU](#)

ASESU > YMARFER YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Bydd pob un o'r sesiynau undydd hyn yn adolygu cyfres asesu'r haf diweddar, gan archwilio enghreifftiau o waith ymgeiswyr wedi'i farcio. Byddant hefyd yn ystyried sut mae adborth ar asesu yn gallu llywio, datblygu a gwella addysgu a dysgu a chynnig syniadau ac adnoddau ymarferol i'ch cefnogi.

Deilliannau:

- Datblygu dealltwriaeth o asesu drwy adolygu deunyddiau enghreifftiol ac ymarfer marcio
- Datblygu strategaethau addysgu a dysgu
- Rhwydweithio â chydweithwyr ac arbenigwyr

“*Dyma'r DPP gorau i mi ei fynychu. Rhediad da, adnoddau da, darpariaeth wybodus, enghreifftiau defnyddiol.*”

Sarah Gray, Caerdydd

Cost: £100 - £210

Lleoliadau: Lleoliadau:

Ar-lein a / neu mewn lleoliadau ganolog

[GWELD CYRSIAU](#)

GALWEDIGAETHOL, LEFEL MYNEDIAD A SGILIAU HANFODOL

Gellir cynnig ein cymwysterau Lefel Mynediad, Lefel 1-3 a Sgiliau Hanfodol law yn llaw â chymwysterau TGAU a Safon Uwch cyffredinol ac mae ein Rhaglen DP flynyddol yn cynnig cyfleoedd i ganolfannau gael mynediad i gymorth penodol ar gyfer eu cyflwyno a'u hasesu.

P'un a ydych yn cynnig un o'r cymwysterau hyn ar hyn o bryd neu â diddordeb i ddysgu mwy, mae cymorth ar gael i chi drwy un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb neu ar-lein.

GWELD CYRSIAU

Cofiwch chwilio am ein Briffiau ar-lein sy'n RHAD AC AM DDIM

Bydd y fideos briffio cyflwyniadol hyn yn cael eu cyhoeddi ar gyfer nifer o'n cymwysterau Galwedigaethol, gan ymdrin â'u strwythur, cynnwys, amcanion asesu, gweinyddu, adnoddau a chysylltiadau defnyddiol

“Dwi wedi cael cymaint o'r diwrnod. Teimlaf yn hyderus iawn ynglŷn â chyflwyno'r cwrs ym mis Medi.”

L. Roberts, yr Wyddgrug

CYRSIAU THEMATIG

Rydym yn falch o gynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau thematig yn ystod 2019/20. Mae'r rhain yn ychwanegol at gyrsiau sy'n gysylltiedig â manylebau penodol ac maen nhw'n canolbwyntio ar arferion addysgu a dysgu effeithiol ac arloesol ar draws meysydd pwnc a/neu gyfnodau allweddol. Eleni, byddan nhw'n cynnwys:

- Dechrau arni gyda Chynhyrchu Ffilmiau
- Dechrau arni gyda Chyfansoddi
- Datblygu daearyddwyr gwell: sgiliau ymholi TGAU a thu hwnt
- Sut i Ddyfeisio mewn Drama – Archwilio Strategaethau
- Cynhadledd ar gyfer ymarferwyr uwchradd Cymraeg ail iaith

Cost: £210

Lleoliadau: Lleoliadau wedi'u lleoli'n ganolog ac yn gyfleus ar draws y wlad

[GWELD CYRSIAU](#)

“Dyma'r cwrs DPP cyntaf i mi ei fynychu gyda CBAC ac rwyf wedi ei fwynhau'n fawr, bu'n ddiwrnod defnyddiol iawn. Diolch.”

Ashleigh Regan, Caerdydd

CYRSIAU AR-LEIN

Mae ein gweminarau byw, ar-lein wedi'u trefnu rhwng 4 a 6yh fel arfer, a gallwch gymryd rhan o'ch ystafell ddosbarth neu o'ch cartref gyda chyfrifiadur personol / gliniadur gyda bysellfwrdd a chlustffonau / seinyddion. Yn y bôn, mae'r digwyddiadau hyn wedi'u cynllunio i fod yn addysgiadol, yn ddiddorol ac yn rhyngweithiol.

Mae ein hardal hyfforddiant ar-lein sy'n syml i'w defnyddio yn eich galluogi i wneud y canlynol:

Gwyllo, gwrando a dysgu

Gwylwch gyflwyniadau byw, gwrandewch a dysgwch oddi wrth arbenigwyr pwnc.

Trafod, rhwydweithio a rhannu syniadau

Cymerwch ran mewn trafodaethau grŵp ac arolygon barn, ymarfer marcio a sgwrsio gyda chydweithwyr eraill.

Gofyn cwestiynau a llwytho deunydd i lawr

Bydd eich cwestiynau'n cael eu hateb trwy gydol y sesiwn a gallwch lwytho'r deunyddiau cefnogaeth i lawr ar unrhyw adeg at ddiben cynllunio neu at ddefnydd yn yr ystafell ddosbarth.

*Noder, nid ydym yn derbyn bwciadau ar-lein. Ar ôl cofrestru, byddwch yn anfon anfoneb atoch chi neu eich canolfan o 5 diwrnod cyn y digwyddiad.

[GWELD CYRSIAU](#)

“Diolch i chi am gwrs cynhyrchiol ac addysgiadol.”

Lowri Saunders, Llanelli

DEFNYDDIO EIN SYSTEM BWCIO AR-LEIN

Mae'n hawdd defnyddio ein system bwcio ar-lein, dilynwch y camau isod i gadw eich lle:

1 Dewiswch eich cymhwyster

2 Dewiswch eich cwrs

3 Dewiswch leoliad wyneb yn wyneb sy'n agos i chi neu weminar ar-lein

4 Rhwch wybod i ni faint o bobl a fydd yn mynychu

5 Dywedwch wrthym am y rhai y rhai a fydd yn mynychu

6 Cadwch eich lle

[GWELD CYRSIAU](#)

*Noder, nid ydym yn derbyn bwciadau ar-lein. Ar ôl cofrestru, byddwch yn anfon anfoneb atoch chi neu eich canolfan o 5 diwrnod cyn y digwyddiad.

CYSYLLTU Â NI

Mae ein Tîm DP yma i ateb eich ymholiadau neu i'ch cynorthwyo gyda'ch archeb(ion).

E-bostiwrch ni: dpp@cbac.co.uk

Ffoniwrch ni: 029 2026 5024

Cymerwch olwg ar ein dewis o DP a chofrestrwch am gyrsiau [yma](#)

Cofrestrwch i dderbyn y newyddion ddiweddaraf am bynciau, gan gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar eich tudalen pwnc [yma](#).

YDYCH CHI WEDI GWELD EIN HADNODDAU YCHWANEGOL?

Gall ein rhaglen DP gael ei hategu gan nifer o adnoddau ychwanegol rydym yn eu cynnig YN RHAD AC AM DDIM. Mae'r rhain yn cynnwys cyfoeth o adnoddau ystafell ddosbarth a ffynonellau data gwerthfawr sydd â'r nod o gyfeothogi'r addysgu a dysgu.

AAA (Adolygu Arholiadau Ar-lein)

Ar ein gwefan Adolygu Arholiadau Ar-Lein, fe welwch gronfa ddata gynhwysfawr o unedau rhyngweithiol sy'n dwyn ynghyd elfennau o gyfresi arholiadau/asesu allweddol, gan gynnwys data cyffredinol, cwestiynau, cynlluniau marcio a sylwadau arholwyr, a fydd yn eich arwain drwy adolygiad o gwestiynau arholiad.

[Ewch i AAA](#)

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau

Mae'r cyfleuster hwn yn caniatáu i athrawon gymharu perfformiad myfyrwyr unigol a chofrestriad y ganolfan â pherfformiad holl ymgeiswyr CBAC ar gyfer cymhwyster penodol. Gall athrawon ddefnyddio'r cyfleuster i ddarganfod ble mae myfyrwyr wedi perfformio'n dda ac i nodi ym mha feysydd y gall fod angen cefnogaeth bellach arnynt.

[Gwelwch hwn drwy'r Wefan Ddigeol](#)

Safoni Asesiadau Mewnol Ar-lein

Mae deunyddiau safoni asesiadau mewnol ar gael i'n canolfannau ar y [Wefan Ddiogel](#). Dewiswch Llwytho Adnoddau PDF i lawr i gyrchu'r rhain ar gyfer pynciau penodol.

[Ewch i'r wefan ddiogel](#)

Adnoddau Digidol Rhad ac Am Ddim

Rydym yn darparu adnoddau digidol yn rhad ac am ddim i gefnogi addysgu a dysgu ein cymwysterau. Mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau penodol i'r pwnc, unedau gwaith rhyngweithiol (y gellir eu defnyddio hefyd fel deunyddiau astudio unigol) ac offer adeiladu gweithgareddau generig.

[Gweld ein hadnoddau digidol](#)

